

DRAMA'R
GENI

Anhygoel Ddydd

Stori'r Nadolig Cyntaf



Ysgrifennwyd gan Bob Hartman

Darluniau gan Amy Lane

Anhygoel ddydd – drama Nadolig sydyn

Ychydig o awgrymiadau syml:

Yn y blaen bydd angen Adroddwr gyda darllenfa/pulpud/stand gerddoriaeth ar un ochr a'r person sy'n chwarae'r Angel/Herod ar yr ochr arall, hefyd gyda darllenfa/pulpud/stand gerddoriaeth. Mae ganddyn nhw'r nifer fwyaf o linellau a bydd y trefniant hwn yn caniatáu iddyn nhw ddarllen y llinellau hynny. Wedi dweud hynny, mae angen iddynt gael eu darllen yn dda, gan edrych i fyny ar y gynulleidfa cymaint ag sy'n bosibl, gyda'r brwdfrydedd angenrheidiol i ddod â'r llinellau hynny'n fyw!

Bydd hefyd yn ddefnyddiol cael arweinydd ar gyfer pob grŵp o'r rhai sy'n cymryd rhan – Mair, Joseff, Bugeiliaid, Angylion, a Sêr-wylwyr. Byddant yn arwain symudiadau eu grwpiau priodol. Ac wrth gwrs rydyn ni am iddyn nhw gael hwyl. Er enghraifft, 'Dewch ymlaen bob Mair, mae'r angel yn ddychrynlyd. Pawb i grynu!' Rhywbeth felly. Nid oes ymarfer, felly mae'n rhaid i bopeth ddigwydd yn ddigymell. A'r ffordd orau o'i gyflawni yw ei ddefnyddio a chael hwyl ag ef.

O ran y llinellau hirach y mae'r cymeriadau hynny i fod i'w dweud, gall yr arweinydd naill ai eu dweud ei hun, neu gall gweddill y bobl sy'n chwarae'r cymeriad hwnnw eu hailadrodd ar eu hôl. Nid oes ots mewn gwirionedd, cyn belled â bod y llinell yn cael ei dweud. Ac, eto, ei fod yn cael ei wneud yn frwdfrydig ac yn llawen.

O ran y caneuon, rydyn ni wedi gwneud awgrymiadau sy'n cyd-fynd â thema pob adran, ond os ydych chi eisiau defnyddio rhywbeth arall, mae croeso i chi wneud hynny!

Mae PowerPoint hefyd i chi ei ddefnyddio, ac mae pob sleid yn cyfateb i waith celf a gymerwyd o *Anhygoel Ddydd – Stori'r Nadolig cyntaf un*. Gallech archebu copïau i'r plant yn eich eglwys a'ch cymuned i'w dosbarthu ar ôl perfformio'r Ddrama Nadolig Sydyn. Ac mae animeiddiad fideo gwych o Anhygoel Ddydd ar gael am ddim i lwytho i lawr.

Edrychwch ar yr ystod lawn o adnoddau Nadolig sydd ar gael i chi a'ch eglwys ar biblesociety.org.uk/christmas

Nawr dyma'r sgript



Adroddwr (Sleid 1)

Croeso i 'Anhygoel ddydd! Stori'r Nadolig cyntaf un'.

Fy enw i yw _____ a byddaf yn adrodd ein stori heddiw; a, mwy neu lai, yn cyfarwyddo ein Drama Nadolig.

Ar yr ochr arall mae fy ffrind _____, a fydd yn chwarae rhan angel yn bennaf ac, yn y diwedd, brenin blin iawn. Mae llawer ohonoch wedi dod wedi gwisgo fel cymeriadau stori'r Nadolig. Diolch i chi am hynny. O bryd i'w gilydd, byddwn yn gofyn i chi ddod i'r blaen i'n helpu i adrodd y stori.

Yn syml, y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw dilyn arweiniad y cynorthwywyr yma. Symudwch pan maen nhw'n symud! Ailadroddwch beth maen nhw'n ei ddweud. Gwnewch yr hyn maen nhw'n ei wneud!

Felly gadewch inni roi '**Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd!**' i _____, a fydd yn arwain pob Mair.

A gadewch inni roi, '**Does dim angen poeni!**' i _____, a fydd yn arwain pob Joseff.

A gadewch i ni roi, '**MŴ! MÊ! HÎHÔ!**' i _____, a fydd yn arwain ein hanifeiliaid.

A gadewch i ni roi, '**Helô! Peidiwch â bod ofn!**' i _____, a fydd yn arwain ein hangylion.

A gadewch inni roi, '**Peidiwch â bod ofn? Ydych chi wedi mynd o'ch co'?**' i _____, a fydd yn arwain ein bugeiliaid.

Ac, yn olaf, gadewch inni roi, '**Sêr y nos yn gwenu!**' i _____, y Seren sy'n arwain ein Sêr-wylwyr.


O, ac fe fydd yna ddau air sy'n ymddangos yn gyson yn y stori. Un ohonyn nhw yw '**RHYFEDDOL**' – gair y byddwn ni i gyd yn ei weiddi gyda'n gilydd, gyda breichiau yn yr awyr, pan fyddwn ni'n gweld arwydd mawr '**RHYFEDDOL**' ar y sgrin (neu bydd rhywun yn dal arwydd sy'n dweud **RHYFEDDOL!** i fyny).

Y gair arall yw '**OFNADWY!**' – y byddwn hefyd yn ei weiddi gyda'n gilydd, gyda gwng ar ein hwyneb, pan welwn yr arwydd sy'n dweud '**OFNADWY!**'.

Adroddwr

Sleid 2

Gadewch i ni ymarfer.



Ardderchog!

Nawr, gadewch inni ganu **'O deuwch, ffyddloniaid.'** Ac wrth i ni ganu, a ddaw pob Mair i'r blaen a sefyll o flaen ein hangel.

Anhygoel Ddydd! Stori'r Nadolig cyntaf un

Mae rhai dyddiau'n rhyfeddol.

Dydyn ni ddim yn gwybod sut ddechreuodd diwrnod Mair.

Ond rydyn ni yn gwybod mai merch ifanc oedd hi.

Rydyn ni'n gwybod ei bod wedi dyweddïo ag adeiladwr o'r enw Joseff.

Ac rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n byw mewn pentref o'r enw Nasareth, 80 i 90 milltir i'r gogledd o Jerwsalem.

Roedd hi'n byw bywyd cyffredin, a dweud y gwir.

Tan y diwrnod y galwodd angel i'w gweld.



Angel

Helô! Mae Duw am ddangos ffafr atat ti!

Adroddwr

Roedd Mair yn rhyfeddu ond yn teimlo'n ddryslyd hefyd, yn methu deall beth oedd ystyr geiriau'r angel.

(Pob Mair yn crafu pen)


Pam roedd angel wedi dod i'w gweld hi? A beth allai'r ffafr fod?

Roedd hi'n edrych yn bryderus. Ofnus, a dweud y gwir. A sylwodd yr angel.

Angel

Sleid 4

Does dim angen i ti fod yn ofnus. Mae'r ffafr hon yn newyddion da! Mae Duw wedi addo ers oesoedd ei fod am ddod â rhywun arbennig i'r byd. Rhywun gwych. Rhywun i lywodraethu ar orsedd y Brenin Dafydd, dros bobl Duw am byth, yn union fel y dywedodd Eiseia, oedd yn broffwyd i Dduw. Mab i Dduw ei hun yw'r 'rhywun' hwnnw. Ac mae wedi dy ddewis di i fod yn fam i'r plentyn hwnnw – y plentyn y byddi di'n ei alw'n Iesu!



Pob Mair

Ond dwi'n wryf! Sut alla i gael plentyn?

Angel

Bydd Ysbryd Glân Duw ei hun yn dod arnat ti, felly bydd y plentyn yn berson sanctaidd – Mab Duw!

Amhosib? Na, wir! Roedd dy berthynas, Elisabeth, gwraig Sachareias, yn llawer rhy hen i gael plentyn. Ond mae hi chwe mis yn feichiog! Achos does dim yn rhy anodd i Dduw!



Adroddwr

Edrychodd Mair ar yr angel. Roedd hi'n ei gredu. Ac roedd hi'n benderfynol o wneud y peth rhyfeddol hwn.

Felly dywedodd hi

Mair

Dw i eisiau gwasanaethu Duw. Dw i'n mynd i wneud beth bynnag y mae'n gofyn i mi ei wneud.

Adroddwr

Sleid 5

Ac yna dyma'r angel yn gadael yr un mor sydyn ag y daeth.

(Fe allech chi gael yr angel i ddiflannu ar y pwynt hwn, ond byddai angen iddo ddod yn ôl eto yn ystod y gân nesaf, mewn pryd i bob Joseff gyrraedd.)



Gallwch naill ai gael arweinydd pob Mair i ddarllen hwn, neu ei wneud fesul llinell a chael y gynulleidfa i ailadrodd pob llinell, neu gofynnwch i bawb ei ddarllen oddi ar y sgrin.

Arglwydd, dysg ni fod fel Mair
a wnaeth ateb dy ofynion.
Helpa ni i roi a gwneud
beth bynnag yw'r gorchwylion.

Adroddwr

Sleid 6

Nawr gadewch i ni ganu '**Ganol gaeaf noethlwm!**' Ac wrth i ni ganu, a ddaw pob Joseff i'r blaen a sefyll wrth ymyl pob Mair.

(Mae pob Mair yn eistedd i lawr yn ystod y gân fel bod y ffocws ar bob Joseff.)

Mae rhai dyddiau'n rhyfeddol.
A, gwaetha'r modd, mae rhai dyddiau'n ofnadwy.

OFNADWY!

Roedd Joseff yn cael diwrnod ofnadwy.
Roedd wedi dyweddio â Mair. Ydych chi'n cofio?
Ac yna cafodd wybod bod Mair yn mynd i gael babi.

Ac roedd yn gwybod nad ef oedd tad y babi.

(Pob Joseff yn ysgwyd eu pennau'n drist.)

Roedd Joseff yn drist ac yn siomedig ac yn ddig, i gyd ar yr un pryd. Roedd yn teimlo'n:

OFNADWY!

Gallai fod wedi codi cywilydd ar Mair a'i bychanu. Doedd Nasareth ddim yn lle mawr iawn, a byddai pawb yn sibrwd amdani y tu ôl i'w chefn. Ond roedd Joseff yn ddyn da, felly penderfynodd dorri'r dyweddïad, yn dawel bach, rhag iddo wneud i Mair deimlo'n annifyr.

Adroddwr (Parhad)

Ond pan aeth i'w wely y noson honno, roedd yn dal yn drist ac yn siomedig ac yn ddig. Roedd yn dal yn teimlo'n:

OFNADWY!

Sleid 7

Ac yna daeth angel ato mewn breuddwyd.

(Pob Joseff yn gosod eu pen ar eu dwylo fel pe baent yn cysgu.)

Angel

Paid â bod ofn priodi Mair. Yr Ysbryd Glân sydd wedi'i gwneud hi'n feichiog. Bydd hi'n cael bachgen bach. A byddi di'n ei alw yn Iesu. Ystyr yr enw yw 'gwardwr' neu 'un sy'n achub', a bydd yn achub ei bobl rhag yr holl bethau anghywir maen nhw wedi'u gwneud.

Dywedodd Eseia, proffwyd Duw, flynyddoedd lawer yn ôl y byddai hyn yn digwydd.

'Bydd merch ifanc sy'n wryf yn feichiog ac yn cael mab. Bydd y plentyn yn cael ei alw yn Emaniwel – Duw gyda ni!'

Adroddwr Sleid 8

Pan ddeffrodd Joseff, newidiodd ei gynlluniau. Yn lle torri'r dyweddiad, penderfynodd Joseff briodi Mair.

(Arweinwyr Mair a Joseff i ddal dwylo – gall tusw ymddangos o rywle! A chonffeti. Gallwch gael ychydig o hwyl!)

Dyna ddiwrnod oedd hwnnw.

Diwrnod a aeth o fod yn

OFNADWY!

i fod yn

RHYFEDDOL!

Gweddi

Gallwch naill ai gael arweinydd pob Joseff yn darllen hwn, neu ei wneud fesul llinell a chael y gynulleidfa i ailadrodd pob llinell, neu gael pawb i'w ddarllen o'r sgrin.

Gweddi

(Parhad)

Arglwydd, dysg ni fod fel Joseff –
un cyfiawn a charedig.
Helpa ni i wrando gan
ymddiried yn frwdfrydig.

Cyfarwyddiadau

Yn yr adran ganlynol, gallwch chi wneud un o ddau beth. Gallwch gael arweinwyr pob Mair a Joseff i ddarllen/dweud eu llinellau. Neu, yn well byth, gallwch adael i'r adroddwr i ddarllen eu llinellau a chael arweinwyr Mair a Joseff i arwain eu grŵp wrth feimio'r symudiadau mewn cromfachau. Efallai y bydd hynny'n fwy o hwyl!

Adroddwr

Sleid 9

Mae rhai dyddiau'n ofnadwy.

OFNADWY!

'Wyt ti wedi clywed y newyddion?' gofynnodd Joseff i Mair.

(Pob Joseff yn pwyntio at eu clustiau, neu'n smalio darllen papurau newydd!)

'Do,' ochneidiodd Mair. 'Mae'r Ymerawdwr Rhufeinig wedi penderfynu cyfrif pawb yn yr holl wledydd y mae'n eu rheoli.'

(Pob Mair yn cyfri gyda'u bysedd.)

'Ac mae wedi gorchymyn i bawb fynd yn ôl i'r trefi lle cawson nhw eu geni er mwyn iddo wneud hynny,' meddai Joseff. 'A gan fod fy nheulu i'n dod o Fethlehem ...'

(Pob Joseff yn pwyntio i un cyfeiriad.)

'Mae'n rhaid i ni fynd yr holl ffordd yno,' ochneidiodd Mair eto. 'A finnau'n disgwyl y babi unrhyw ddiwrnod.'

(Pob Mair yn pwyntio at eu boliau.)

'Wnawn ni ddim rhuthro ar y daith,' addawodd Joseff. 'Gallwn ei gerdded mewn pedwar neu bum diwrnod pe bawn i'n cerdded yn gyflym. Ond fe gawn ni gymryd wythnos neu fwy os bydd angen.'

(Pob Joseff yn cyfri hyd at bump gyda'u bysedd.)

'Dyna drueni na allwn ni ddim fforddio asyn,' ochneidiodd Mair unwaith eto. 'Ond fe wnawn ni'r gorau ohoni. Does gennym ni ddim dewis.'

(Pob Mair yn rhoi dwylo at eu pennau fel clustiau asyn a'u siglo.)

A dyma nhw'n dechrau cerdded.

(Pob Mair a Joseff yn cerdded yn y fan.)

Roedd rhai o'r dyddiau hynny'n ofnadwy hefyd.

OFNADWY!

Traed poenus.

Cefnau poenus.

Coesau poenus.

(Pob Mair a Joseph yn pwyntio at y rhannau priodol o'r corff.)

Ond roedd rhai dyddiau'n wych.



Adar yn canu. *(Dwylo i'r clustiau.)*

Golygfeydd annisgwyl. *(Dwylo dros y llygaid.)*

A llawer o ffrindiau newydd! *(Chwifio'r dwylo!)*

Sleid 11

Pan gyrhaeddod nhw Fethlehem o'r diwedd, aeth Joseff i weld ei berthnasau. O Fethlehem roedd ei deulu'n dod fel y cofiwch chi, felly roedd y dre'n llawn ohonynt. Bu Joseff a Mair yn crwydro'r dre yn curo ar ddrysau perthnasau Joseff ond yr un oedd yr ateb ym mhob man.

'Dim lle! Sori!'

Roedd yr haul yn machlud erbyn hyn. Roedd hwn wir yn ddiwrnod ofnadwy.

OFNADWY!

Yna, cyrhaeddodd Joseff a Mair dŷ cefnder i Joseff.

'Mae'r ystafell lle mae pobl yn arfer aros yn llawn,' meddai. 'Ond mae gennym ni ystafell arall lle rydyn ni'n cadw'r anifeiliaid dros nos. Gewch chi aros yno mor hir ag y liciwch chi.'

Sleid 12

A dyna ble yr arhosodd Joseff a Mair – yng nghwmni ambell fuwch a dafad ac asyn a gafr.

Ond roedden nhw'n gynnes. Ac yn ddiogel. A phan ddaeth yr amser, cafodd Mair ei babi yno.

Galwodd hi'r babi yn Iesu.


Rhoddodd hi Iesu mewn cafn bwydo anifeiliaid, gyda'r gwair.

Adroddwr

(Parhad)

A'i ddal yn ei breichiau – mab arbennig, gwerthfawr Duw.

Ac roedd yn deimlad ...



Canu

Pawb: **'O dawel ddinas Bethlehem'**.

Cyfarwyddiadau

Yn ystod y gân, eisteddwch pob Mair o flaen pob Joseff, a fydd yn sefyll y tu ôl iddyn nhw. Yna pasiwch y baban Iesu o amgylch pob Mair. Yna mae Arweinydd yr Anifeiliaid yn arwain yr anifeiliaid i'r tu blaen. Maen nhw'n eistedd wrth yr ymylon, neu os ydyn nhw'n fach, o flaen pob Mair. Mae hyn yn edrych yn eithaf trefnus ar bapur, ond byddwch yn barod am anhrefn!

Gweddi

(Sleid 13)

Ac yn awr, a wnewch chi blygu eich pennau gyda mi wrth imi ddarllen emyn gan Daniel Ddu o Geredigion a all hefyd fod yn weddi i ni.

Dyma'r dydd y ganed Iesu,
dyma'r dydd i lawenhau;
Arglwydd nef a ddaeth i brynu
dynol-ryw, a'u llwyr ryddhau.

Gwelwyd Iesu mewn cadachau,
iddo preseb oedd yn grud,
bu yn wan fel buom ninnau –
seiliwr nefoedd faith a'r byd.

Daeth o wlad y pur ogoniant,
daeth o wychder tŷ ei Dad,
prynodd ef i bawb a'i carant
deyrnas nef yn rhodd, yn rhad.

Gweddi

(Parhad)

Dyma gariad haedda'i gofio
mewn anfarwol gân ddi-lyth;
yn y cariad hwn yn nofio
boed fy enaid innau byth.

Canu

'Dawel nos' neu 'I orwedd mewn preseb'.

Cyfarwyddiadau

Yn ystod pennill olaf y gân, mae'r Arweinwyr yn arwain pawb yn ôl i'w seddi. Yna mae Arweinwyr pob Mair a Joseff yn dychwelyd i'r tu blaen (i un ochr, os yn bosibl, i wneud lle i'r bugeiliaid, angylion, Sêr-wylwyr, ac ati, ond dal i fod yn weladwy i'r gynulleidfa). Mae Mair yn eistedd, yn dal y baban Iesu, Joseff y tu ôl iddi. Gallwch gynnwys Arweinydd yr Anifeiliaid, os hoffech chi!

Adroddwr

Nawr dewch ynghyd fugeiliaid ac angylion hefyd. Mae hi bron yn amser ichi wneud eich mynediad.

(Arweinydd y Bugeiliaid yn arwain y bugeiliaid – ac unrhyw ddafad – i'r blaen yn ystod y darn cyntaf hwn o'r naratif.)

Roedd hi'n nos yn y brynau ger Bethlehem. Ac roedd bugeiliaid yn gofalu am eu defaid.

Sleid 14

Roedden nhw wedi hen arfer clywed rhai mathau o sŵn:

Defaid yn breffu. *(Pawb i wneud sŵn breffu.)*

Dail yn siffrwd. *(Pawb i wneud sŵn siffrwd.)*

A, bob hyn a hyn, blaidd yn udo yn y pellter. *(Pawb i wneud sŵn udo.)*

Yna, clywson nhw sŵn annisgwyl.

'Helo!' *(Arweinydd pob Angel yn codi llaw)* gan siâp rhywun nefolaidd, gwyn, llachar, yn yr awyr.

Roedd y bugeiliaid yn crynu wrth weld a chlywed hynny.

(Bugeiliaid yn crynu.)

Ond daliodd yr angel i siarad.



Angylion

Peidiwch â dychryn! Mae gen i newyddion da i chi. Newyddion fydd yn gwneud pawb yn hapus.

Ydych chi'n cofio bod Duw wedi addo anfon Rhywun Arbennig atoch chi? Y Meseia – yr un fydd yn gwneud popeth yn iawn?

Angylion

(Parhad)

Wel, fe gafodd y Meseia ei eni heddiw!

Allwch chi ddyfalu ble? Yma. Ym Methlehem, dinas y Brenin Dafydd!

Dyma sut y byddwch chi'n gwybod fy mod i'n dweud y gwir. Os ewch chi i Fethlehem, fe welwch chi fabi newydd ei eni yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid!

Adroddwr

Pan orffennodd yr angel ei neges, a wnaeth y brefu a'r siffrwd a'r udo ailddechrau?

Na, dim am ychydig.

Sleid 15

Achos daeth sŵn miloedd o angylion o'r nefoedd.

(Angylion yn dod i'r blaen.)

Ac roedden nhw'n canu eu mawl i Dduw!

Angylion

Mae Duw yn rhyfeddol, yn y nefoedd uchaf!

Heddiw, mae'n dod â heddwch i'w bobl!

Adroddwr

Felly gadewch i ni ganu gyda nhw. **'Clywch lu'r nef yn seinio'n un'** neu **'Cân angylion ar yr awel'**.

Yna, mor sydyn ag y daethon nhw, aeth yr angylion yn ôl i'r nefoedd.

(Angylion yn ôl i'w seddau.)

A dyma'r bugeiliaid yn clywed y synau cyffredin eto.

Y brefu. *(Sŵn brefu.)*

A'r siffrwd. *(Sŵn siffrwd.)*

A'r udo. *(Sŵn udo.)*

Ond yna, cododd un o'r bugeiliaid ei lais a dweud ...

Bugail

Sleid 16

Gadewch i ni fynd i Fethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i wneud!



Adroddwr

Ac i ffwrdd â nhw.

Nid cerdded wnaethon nhw. Na, fe redon nhw! A pham lai?

Roedd yr Un roedd Duw wedi'i addo yn y dre yn rhywle, yn disgwyl iddyn nhw ddod o hyd iddo – fel yr ŵyn bach roedd y bugeiliaid wedi gorfod rhedeg i chwilio amdany'n nhw dros y blynyddoedd.

I fyny un stryd â nhw. Ac i lawr un arall.

Chwilio i'r dde a chwilio i'r chwith.

Yn y diwedd, daethon nhw o hyd i'r hyn roedden nhw'n chwilio amdano.

(Bugeiliaid yn ymgynnull, ac yn mynd ar eu gliniau o flaen Mair a Joseff.)

Mair. A Joseff. Ac roedd y babi'n gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid.

Roedd y bugeiliaid yn llawn cyffro a phawb yn sôn ar draws ei gilydd am beth roedden nhw wedi'i weld a'i glywed.

Bugeiliaid

Sleid 17

(Dwedwch wrth y bugeiliaid i ailadrodd pob gair ar ôl yr arweinydd bugail.)

Angylion!

Addewidion!

Moliant!

Heddwch!

Bleiddiaid!

Naddo siŵr, o'r blaen oedd hynny!

Adroddwr

A phan glywodd Mair eu stori nhw, fe gofiodd hi bob gair a chadw'r cyfan fel trysor yn ei chalon. Achos roedd hi'n cofio beth oedd wedi digwydd iddi hi! Ac roedd hi'n gwybod ei fod i gyd yn wir!

Yna, aeth y bugeiliaid yn ôl i'r caeau.

A wnaethon nhw glywed y sŵn arferol?

Y breffu? *(Sŵn breffu.)*

A'r siffrwd? *(Sŵn siffrwd.)*

A'r udo? *(Sŵn udo.)*

Ddim am dipyn achos roedd y bugeiliaid yn gwneud eu sŵn eu hunain – yn canu caneuon yn moli Duw am beth roedd e wedi'i wneud a beth roedden nhw wedi'i weld.

Caneuon fel caneuon yr angylion!



Sleid 18

Gweddi

Gallwch naill ai gael Arweinydd y Bugeiliaid/Angylion yn darllen hwn, neu ei wneud fesul llinell a chael y gynulleidfa i ailadrodd pob llinell, neu gael pawb i'w ddarllen o'r sgrin.

Diolch, lôr, am gân yr angylion
yn sôn am eni Achubwr y Byd.
Dangos y ffordd i ni fyw heddiw
fywyd o gariad a heddwch ynghyd.

Adroddwr

Sleid 19

Mae'n amser i'n Sêr-wylwyr, nawr. A'n Sêr. Felly wrth i ni ganu'r gân nesaf, rydyn ni am i chi ddod i'r blaen.

(Pan gyrhaeddant yno, rhowch y Sêr y tu ôl a'r Sêr-wylwyr ar y blaen.)

Canu

Canwch ddau bennill o '**Tri ym ni!**

Adroddwr

Roedden nhw'n hoffi gwyllo'r sêr.
Roedden nhw'n dod o'r dwyrain.
Roedden nhw wedi teithio'n bell.

A phan gyrhaeddon nhw Jerwsalem, dyma nhw'n curo drws palas y Brenin Herod ac yn cyflwyno'u hunain.

(Mae arweinydd y Sêr-wylwyr yn dweud llinell ac mae'r Sêr-wylwyr eraill yn ei hailadrodd ar ei ôl.)

Rydyn ni'n hoffi gwyllo'r sêr.
Rydyn ni'n dod o'r dwyrain.
Rydyn ni wedi teithio'n bell.

Rydyn ni wedi dod i addoli Brenin yr Iddewon sydd newydd ei eni.

Sleid 20

Dywedon nhw eu bod wedi gweld seren newydd yn yr awyr. A gofynnion nhw a oedd e'n gwybod ble oedd y plentyn.



Adroddwr

(Parhad)

Ceisiodd y Brenin Herod ymddwyn yn normal ond roedd yn poeni. Yn poeni ac yn ddig. Wel, yn poeni ac yn ddig ac wedi cynhyrfu. Roedd wedi gweithio'n galed i gael bod yn Frenin yr Iddewon. Roedd wedi lladd mwy nag un person er mwyn cael eistedd ar yr orsedd. Felly, doedd Herod ddim yn barod i adael i ryw hen fabi gymryd ei le!

Gofynnodd Herod i'r Sêr-wylwyr aros am funud a chafodd gyfarfod gydag offeiriaid ac arbenigwyr yn y grefydd Iddewig.

Herod

Reit, dwedwch wrtha i ble mae'r Meseia i fod i gael ei eni – fe yw'r brenin mae Duw wedi addo'i anfon aton ni. Does dim amser i'w wastraffu!

Adroddwr

(Sleid 21)

Rhoddodd yr offeiriaid a'r arbenigwyr yn y grefydd Iddewig eu pennau at ei gilydd i drafod y mater. A phan oedden nhw i gyd yn gytûn, cododd un ohonyn nhw ei law a siarad.

'Ym Methlehem, Jwda, syr. Dyma beth ddwedodd y proffwyd Micha gannoedd o flynyddoedd yn ôl:

"Bethlehem, nid rhyw bentref dibwys yn Jwda wyt ti;

achos daw brenin o Fethlehem

a fydd yn fugail, yn arwain fy mhobl!"

Dwedodd Herod hynny wrth y Sêr-wylwyr. Yna, gofynnodd am wybodaeth bellach.

Herod

Ers faint rydych chi wedi bod yn teithio? Tua faint yw oedran y babi?

Sêr-wylwyr

Dim mwy na dwy flynedd.



Herod

Diolch. Mae hynna'n help mawr. I ffwrdd â chi, ac ar ôl i chi ddod o hyd i'r brenin newydd, dewch yn ôl i ddweud wrtha i ble mae e, er mwyn i mi gael mynd i'w addoli hefyd!

Adroddwr

(Sleid 22)

Ond, mewn gwirionedd, eisiau lladd y plentyn oedd Herod, er mwyn iddo gael aros yn frenin. Ond doedd Herod ddim eisiau dweud hynny wrth y Sêr-wylwyr.

OFNADWY!

Adroddwr

(Parhad)


Sêr- wylwyr

Adroddwr

(Sleid 23)

(Sleid 24)

I ffwrdd â nhw gan ddilyn y seren nes eu bod yn cyrraedd tŷ ym Methlehem!
Ar ôl curo'r drws, dyma nhw'n cyflwyno'u hunain.



Rydyn ni'n hoffi gwyllo'r sêr.
Rydyn ni'n dod o'r dwyrain.
Rydyn ni wedi teithio'n bell.
Rydyn ni wedi dod i addoli Brenin yr Iddewon!

Roedd Mair yn y tŷ. A Joseff, hefyd. Ac Iesu – a oedd yn blentyn bach tua dwy oed erbyn hyn.

Roedd Mair a Joseff yn deall yn union beth roedd y dynion yn ei olygu ac fe gawson nhw fynd i mewn i'r tŷ. Roedd ganddyn nhw dair anrheg i Iesu bach. Nid y math o anrhegion y mae plant bach yn eu cael fel arfer. Nid teganau. Ond anrhegion addas i frenin:

(Mae'r Sêr-wylwyr yn rhoi eu rhoddion pan fydd yr adroddwr yn eu henwi.)

Aur!

Thus – persawr ag aroglau cryf a oedd, bryd hynny, yn fwy gwerthfawr nag aur!

A myrr – persawr cryf arall.

Roedd y Sêr-wylwyr wedi eu cyffroi ar ôl gweld Iesu. Ac felly y dylen nhw fod, achos roedd Duw wedi addo, trwy deulu Abraham, y byddai Iesu'n gwneud gwahaniaeth mawr a gwych i'r byd i gyd!

Ond y noson honno, wrth iddyn nhw gysgu, breuddwydion nhw. Ac yn y freuddwyd, rhybuddiodd Duw nhw am gynllun drwg Herod.

OFNADWY!

Felly i ffwrdd â nhw am adref, gan osgoi'r palas yn gyfan gwbl a dilyn ffordd arall!

Yn ôl at eu swyddi fel Sêr-wylwyr.

Yn ôl i'r dwyrain.

Gan deithio'n bell iawn.

RHYFEDDOL!

Gweddi

Arglwydd, fel y Sêr-wylwyr:
helpa ni dy ddilyn
gan geisio dy arweiniad
wrth ddilyn pob gorchymyn.

Canu

Canwch ddau bennill arall o **'Tri ym ni'**.
(*Sêr-wylwyr yn dychwelyd i'w seddi*)

Adroddwr (Sleid 25)

Rydyn ni wedi cael amser hyfryd yn dathlu stori'r Nadolig. Rydyn ni'n ei wneud bob blwyddyn. Ac rydyn ni'n ei wneud am reswm. Nid yw'r digwyddiadau hyn yn sefyll ar eu pennau eu hunain. Na, maen nhw'n rhan o set lawer mwy o ddigwyddiadau sy'n cysylltu'n ôl â dechrau popeth, ac ymlaen am byth.

Dyma gerdd i'ch helpu i gofio:

Felly', meddech chi, 'beth oedd pwynt yr angylion,
Y bugeiliaid, camelod, y seren a'r doethion?
Ai stori yn unig yw hon i gael clywed
ar ddydd Nadolig, rhyw hwyl ddiniwed?

Ond nid dyna yw hi, nid stori fach gynnes.
Mae'n neges ganolog i bob rhan o hanes!
Y babi o Fethl'em a dyfodd yn ddyn
Gan herio pob pŵer a phob brenin ei hun.

Fe'n dysgodd fod caru yn well na chasáu
Fod gweini yn dda, a maddau bai.
Dangosodd werth bywyd i bob un byw:
Y mawr a'r bach, yr holl ddynol ryw.

Ac yna, ar groes, bu farw i'n rhyddhau,
Marw i'n hachub, er mwyn ein glanhau.
A cherdodd o'i fedd ddyddiau'n ddiweddarach
I droi'r nos yn ddydd na fu ei harddach.

Adroddwr

(Parhad)

A dyna yw newyddion da yr angylion:

Daeth Iesu i'n caru a hynny o'i galon.

Bywyd newydd yn awr. Bywyd newydd am byth.

Dyna rodd y Nadolig, dyna sy'n wyrth!

Canu

Felly dewch i ni ddathlu Stori Ryfeddol Duw wrth i ni ganu gyda'n gilydd:

Canwch **'Y Brenin Tlawd'**.

(Ar yr adeg hon, fe allech chi weddio, neu gynnig gwahoddiad, neu awgrymu ffyrdd y gallai'r gynulleidfa ddarganfod mwy am Iesu.)

Diolch yn fawr am fod gyda ni heddiw, ac am ein helpu i adrodd Stori Ryfeddol Duw.

Felly gadewch inni roi **'Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd!'** i bob Mair.

A gadewch inni roi **'Does dim angen poeni!'** i bob Joseff.

A gadewch i ni roi **'MŴ! MÊ! HÎHÔ!'** i'n hanifeiliaid.

A gadewch i ni roi **'Helô! Peidiwch â bod ofn!'** i'n hangylion.

A gadewch inni roi **'Peidiwch â bod ofn? Ydych chi wedi mynd o'ch co'?''** i'n Bugeiliaid.

Ac, yn olaf, gadewch inni roi, **'Sêr y nos yn gwenu!'** i'n holl sêr a'n Sêr-wylwyr!

Canu

A gadewch i ni orffen trwy ganu gyda'r angylion hynny: **'Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn!'**





Ffotograffiaeth gan United Bible Societies

Yng Nghymdeithas y Beibl credwn gall y Beibl newid bywydau pobl er daioni.

Gan weithio ar draws Affrica, Tsieina a'r Dwyrain Canol – mewn lleoedd lle mae Cristnogaeth yn tyfu gyflymaf – rydyn ni'n cyfieithu, yn dosbarthu ac yn helpu pobl i uniaethu â'r Beibl a gwneud synnwyr ohono. Ac rydym yn eiriol dros ei le yn y gymdeithas fel nad yw ei ddoethineb, ei ysbrydoliaeth a'i berthnasedd yn cael ei golli.

Yma gartref, lle mae'r Beibl ar gael yn rhwydd ond yn anaml yn cael ei ddarllen, rydym yn cyflwyno cenhedlaeth newydd i'r straeon sy'n newid bywydau ac yn helpu pobl i ymgysylltu ag ef yn well fel y bydd y Beibl yn parhau i ffurfio ein cymunedau.

Fe'n sefydlwyd dros 200 mlynedd yn ôl gan grŵp angerddol o bobl a gredai y dylid rhannu gair Duw ar draws y byd, ac rydym wedi ein cynnal gan ymrwymiad miloedd o gefnogwyr – pobl fel chi – sydd wedi ymuno â'n cenhadaeth i ddod â'r Beibl yn fyw.

Mae popeth a wnawn yn cael ei yrru gan un argyhoeddiad: pan fydd pobl yn ymgysylltu â'r Beibl gall bywydau newid, er daioni. Felly os yw'r Beibl wedi gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd chi, ymunwch â ni trwy weddi a chefnogaeth i ddod â'r Beibl yn fyw ledled y byd.



Ffotograffiaeth gan Claire Kendall



Ffotograffiaeth gan Howard Wilkinson

Fe gewch rhagor o adnoddau i'ch helpu chi i rannu'r stori fawr y Nadolig hwn yn biblesociety.org.uk/christmas